

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English

PDF

Argraffu

Cyfeirnod

Linell Amser

English

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

JONES, EDWARD (fl. 1781-1831), ' Ned Môn '

Enw: Edward Jones
Ffugenw: Ned Môn
Rhyw: Gwryw
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Robert Thomas Jenkins

- ond sylwer mai llysenw yw hwn, ac nid ffugenw llenyddol. Etholwyd ef yn aelod o Wyneddigion Llundain yn 1781; bu'n ysgrifennydd iddi yn 1782 ac yn llywydd yn 1785, ac yr oedd yn aelod am ei oes o'i chyngor. Dywedir yn aml mai bargyfreithiwr oedd, ac yn wir geilw **William Owen Pughe** ef yn ' Ned Môn the lawyer,' a sonia **Leathart** (*Origin and Progress of the Gwyneddigion*, 31) am ei 'chambers in the Temple,' ond dylid cofio mai 'the Temple ' a roddir fel cyfeiriad **Robert Hughes** ('Robin Ddu') yn rhestr aelodau'r Cymmrodorion yn 1778, a gwyddom mai clercc mewn swyddfa cyfreithwyr oedd hwnnw; gan nad ymddengys enw unrhyw Edward Jones yn rhestrau unrhyw un o'r ' Inns of Court,' haws yw credu mai clercc oedd ' Ned Môn ' yntau. Priodola ' **Gwilym Lleyn ' dri llyfr iddo: cyfieithiad Saesneg o ddau draethawd gan Cicero, 1776; Cyfreithiau Plwyf - Holl Ddyledswydd Swyddogion Plwyf, 1794; a Index to Records ... of the Exchequer** (dwy gyfrol), 1793 a 1795, gan ' Edward Jones, Inner Temple.' Sut bynnag y mae esbonio'r ' Inner Temple ' yn wyneb y ffaith a nodwyd uchod, bydd yn rhaid wrth amgenach tystiolaeth cyn y gellir bod yn ffyddiog mai ' Ned Môn ' biau'r cyntaf a'r trydydd. Ychydig a ddywed **Leathart** amdano, ond ei fod yn flaenllaw yn y Gwyneddigion; edrydd (t. 31) hanes ysgarmes ddigri rhyngddo ef a **David Samwel**. Dywedodd **Pughe** wrth **Leathart** ei fod yn 'prominent orator,' ac edrydd **David Samwel** mewn llythyr at ' **Gwallter Mechain ' (*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1926-7, 130) iddo ddadlau ar wleidyddiaeth, yn erbyn ' Owain Myfyr ' ac ym mhlaidd **Samwel**, yng Nghymdeithas y Caradogion yn 1797. Cydnabyddir ei help (a help ei frawd Owen) yn y rhagymadrodd i *Dafydd ap Gwilym*, 1789. Ym Mharis yr oedd yn byw pan sgrifennodd **Leathart** ei lyfr (t. 37), ac efo oedd yr hynaf o aelodau'r Gwyneddigion a oedd yn fyw pan gyhoeddwyd y llyfr. Yr oedd ganddo ddau frawd: OWEN JONES ('Owain Môn,' neu ' Cor y Cyrtie ' - enw a awgryma ei fod yntau'n glerc cyfreithiwr), a fu'n ysgrifennydd y Gwyneddigion yn 1789, yn is-lywydd yn 1792, ac yn llywydd yn 1793, ond a oedd wedi marw pan sgrifennodd **Leathart**; a WILLIAM JONES ('Bardd Môn'), a fu farw yng Ngorfennaf 1820 (**Leathart**, 57) - yr oedd ef yn aelod hefyd o'r Cymreigyddion, a bu'n llywydd iddynt (*Y Llenor*, 1938, 231).**

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF

Argraffu

Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Erch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

Jenkins, R. T., (1953). JONES, EDWARD (fl. 1781-1831), ' Ned Môn '. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-EDW-1781>

Preifatrwydd a Chwcis

Hawlfraint

Y Prosiect

Cymorth

Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government